Polisi Ymddygiad Cymuned Ysgol Penweddig.

RHAN 1

Cyflwyniad

Caiff ein polisi ysgol ei seilio ar BARCH (Gweler y diagram uchod) ac ar werthoedd a pholisïau'r Ysgol.

Gwerthoedd yr ysgol.

Nod yr ysgol hon yw gwireddu potensial pob unigolyn mewn cymuned hapus cyfrwng Cymraeg a'i baratoi i fod yn ddinesydd byd-eang, cyflawn, goddefgar a chyfrifol beth bynnag bo ei allu.

Pwrpas y polisi yw sicrhau:

ymddygiad da ymhlith y disgyblion
ymateb cyson a theg mewn achosion lle nad yw disgyblion yn cadw at ddisgwyliadau'r ysgol.

Cyfrifoldeb pob aelod o staff yw gweithredu polisi ymddygiad yr Ysgol.

Cyfrifoldeb yr Ysgol yw sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r Ysgol ar ran ymddygiad, a'r canlyniadau posibl o beidio â chydymffurfio.

Cyfrifoldeb yr Ysgol yw sicrhau bod rhieni, llywodraethwyr, darpar rieni a'r rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'r disgwyliadau a'r camau y gellir eu cymryd mewn achosion o gamymddygiad disgybl.

Ni dderbynnir ymddygiad gwael o fewn y gymuned ysgol gan ei fod yn tanseilio hawl y disgybl i gael addysg a'r athro i addysgu.

Wrth gyrraedd yr ysgol ym mlwyddyn 7 bydd disgwyl i rieni, disgyblion a chynrychiolydd o'r ysgol arwyddo Cytundeb Ysgol a Chartref.

RHAN 2

Diffiniad o'r gair 'ysgol':

Yn y ddogfen hon dylid dehongli camymddygiad yn yr 'ysgol' yn ei ystyr ehangach, sef:

- Yn adeilad yr Ysgol
- Ar safle'r Ysgol
- Mewn gweithgareddau, ymweliadau, neu deithiau Ysgol
- Ar fws Ysgol
- Ar unrhyw achlysur arall lle mae'r disgybl o dan ofal yr Ysgol

RHAN 3

Y Fframwaith

Polisi Ymddygiad Cymuned Ysgol Penweddig.



RHAN 4

Polisïau:

Y polisïau sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon yw:

Polisi Cyfle Cyfartal a Hiliaeth
Polisi Gwrth-Fwlian
Polisi Cyffuriau
Polisi Hafan ac Encil
Polisi Presenoldeb
Cylchlythyr Llywodraeth y Cynulliad 1/2004

RHAN 5:

Cod Ymddygiad:

Mae copi o'r disgwyliadau i'w weld yn **Atodiad 1**

Bydd copi o'r disgwyliadau yn weladwy ym mhob dosbarth.
Bydd copi yn llyfr cyswllt pob disgybl.
Bydd athrawon yn cadarnhau'r disgwyliadau yn ystod gwersi ABCH gan gyfeirio yn gyson atynt ar lawr y dosbarth.

Bydd gwrthod cydymffurfio â'r disgwyliadau yma yn arwain at gamau disgyblaeth 1, 2 a 3

Caiff disgybl sy'n gwrthod cydymffurfio â rheolau'r Polisi Ymddygiad Gymuned Ysgol ei gyfeirio at yr Hafan ac Encil yn yr achos cyntaf.

Gall camymddygiad cyson, lle na cheir ymateb i gamau disgyblaeth 1,2 a 3 arwain at gamau 4,5, a 6 ac eithrio o'r ysgol yn y pen draw.

RHAN 6

Diffiniad o “Hafan” ac “Encil”.

Disgwylir i bob ysgol yng Ngheredigion gynnig darpariaeth Hafan ac Encil.

Hafan: Ystafell ganolog yn yr ysgol ble y cyfeirir disgybl er mwyn derbyn cynhaliaeth emosiynol ac ymarferol. Y bwriad yw cynnig cynhaliaeth i’r disgybl i ymdopi gydag agweddau o fywyd yr ysgol sy’n anodd iddo ef/ iddi hi.

Encil: Cyfeirir disgybl at yr Encil pan nad yw’n cydymffurfio â rheolau’r ysgol ac i ynysu’n fewnol. Pan gyfyd achos o ynysu mewnol cysylltir â rhieni i roi gwybod iddynt a chedwir cofnod o hynny. Gall ddisgybl fod yn yr Encil hyd at fwyafswm o 3 diwrnod.

Er mwyn sicrhau cysondeb, dim ond y cydlynydd Hafan ac Encil, drwy gytundeb gyda’r dirprwy lles, a’r UTRH all gyfeirio disgybl at yr Encil.

Camymddygiad mwy difrifol:

Nid yw'r mathau o gamymddygiad isod yn dderbyniol ar unrhyw achlysur yn yr Ysgol.

Dwyn

Fandaliaeth

Ymosodiad Corfforol

Meddiant/ Defnydd/ Dosbarthu Alcohol

Meddiant/ Defnydd/ Dosbarthu Cyffuriau

Meddiant/ Defnydd o Arf Peryglus

Ymddygiad haerllug neu fygythiol tuag at aelod o staff

Ymddygiad sydd yn gosod eraill mewn perygl

Defnydd o'r offer cyfrifiadurol i ddifrodi gwaith eraill

Ymyrryd/ cyfaddawdu ar reolaeth y system gyfrifiadurol

Bwlian

Cyber-Bwlian gan gynnwys negeseuon testun a ffôn

Gall y math yma o gamymddygiad arwain at eithrio allanol, naill ai dros dro neu yn barhaol, sef camau disgyblaeth 4,5 a 6 (Gweler Rhan 7)

Bydd yr Ysgol yn hysbysu'r heddlu ym mhob achos o dor-cyfraith sy'n cynnwys cyffuriau a chario arf a rhai achosion o ddwyn, fandaliaeth, ymosodiad corfforol, bwlian a chamddefnydd o'r cyfrifiaduron**.**

Cyfrifoldeb yr Ysgol yw sicrhau bod pob disgybl – a'r rhanddeiliaid eraill – yn ymwybodol o ganlyniad y math yma o gamymddygiad.

Bwlian:

Gweler Polisi Gwrth-Fwlian yr Ysgol.

Bydd yr Ysgol yn delio â phob achos o fwlian yn unigol, ac yn unol â pholisi Gwrth-fwlian yr Ysgol. Gall yr ymateb amrywio ar draws camau disgyblaeth 1 hyd at 6 yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Cyfrifoldeb yr Ysgol yw sicrhau fod disgyblion yn ymwybodol:

- Fod bwlian yn hollol annerbyniol
- Y gall bwlian arwain at ddiarddeliad

Tynnu/ lledaenu lluniau;

Nid yw'n dderbyniol tynnu lluniau o unrhyw ddisgybl/ aelod o staff/ymwelydd yn yr ysgol heb gael caniatâd yr unigolyn gyntaf.

Nid yw'n dderbyniol trosglwyddo neu gyhoeddi lluniau o unigolion (staff/ ymwelwyr neu ddisgyblion) heb gael eu caniatâd

Bydd yr Ysgol yn delio â phob achos o dynnu/ lledaenu lluniau yn unigol. Gall yr ymateb amrywio ar draws camau disgyblaeth 1 hyd at 6 yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Tanseilio enw da yr Ysgol

Bydd yr Ysgol yn delio â phob achos o danseilio enw da yr Ysgol yn unigol. Gall yr ymateb amrywio ar draws camau disgyblaeth 1 hyd at 6 yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Gwybodaeth bwysig i rieni a disgyblion:
O'r 1 Tachwedd 2010 ymlaen bydd cyfraith gwlad yn cefnogi staff dysgu

- i allu cymryd ffonau symudol oddi wrth ddisgyblion os ydynt yn cael eu defnyddio am resymau anaddas neu'n faleisus.
- i weithredu polisi ymddygiad y tu hwnt i dir yr ysgol e.e. bws, canolfan hamdden
- i chwilio am arfau ymysg eiddo disgybl
- i ddefnyddio atalfa ar ôl ysgol fel sancsiwn
- i ddefnyddio nerth corfforol (Yn unol â chanllawiau'r Gyfraith) i rwystro disgybl rhag gwneud niwed i eraill neu i'w hunan. Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiad.

RHAN 7

Y Camau Disgyblaeth

(Mae'r camau disgyblaeth isod yn seiliedig ar gamau disgyblaeth Sir Ceredigion, ond wedi eu haddasu at ddefnydd Ysgol Penweddig).

Pwysig:

Yn y camau cyfeirir at enghreifftiau penodol o'r mathau o gamymddygiad a all ddigwydd. Wrth reswm, ni ellir rhestru pob achos a allai godi. Bydd yr Ysgol yn delio gyda'r rhai na restrir mewn ffyrdd sy'n gymesur â'r camau hyn.

Atodiad 1:
Cod Ymddygiad yr ysgol

Disgwyliadau'r Ysgol yw:

Bod yn brydlon bob amser.

Codi pan ddaw aelod o staff i'r ystafell ddysgu.

Dod â'r holl offer i'r gwersi.

Dod i mewn, a gadael y dosbarth yn drefnus.

Gweithio'n dawel a dilyn cyfarwyddiadau'r athro.

Rhoi eich llaw i fyny cyn siarad.

Peidio â tharfu ar waith eraill.

Gweithio yn galed i gadw at ddyddiadau penodol.

Sicrhau bod gwaith a gollwyd yn cael ei gwblhau.

Gweithio'n dawel yn y llyfrgell.

Defnyddio'r cyfrifiaduron at bwrpas gwaith ysgol yn unig.

Peidio â bwyta nac yfed yn yr ystafell ddosbarth neu'r llyfrgell.*

Defnyddio'r peiriannau bwyd a diodydd amser egwyl a chinio yn unig.

Cadw ffônau symudol a chwaraewyr MP3/cerddoriaeth allan o'r golwg ac wedi eu diffodd. Dim defnydd o ffonau/ MP3/ IPods ar safle'r ysgol **heblaw** gan y 6ed dosbarth **yn ystafell gyffredin y 6ed yn unig**.

Peidio â gweithredu mewn ffordd sy'n tanseilio enw da yr Ysgol.

* Caniateir dŵr mewn potel mewn rhai gwersi gyda chaniatâd yr athro/ athrawes.

* Caniateir defnydd o ffonau symudol ar gyfer cysylltu â rhieni y tu allan i oriau ysgol. Mewn argyfwng, mae modd i ddisgyblion a rhieni ddefnyddio ffôn swyddfa'r ysgol.

Iechyd a diogelwch:

Cofrestru'n brydlon bore a phrynhawn.
Aros ar safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol (Bl 7 – 11) gan lofnodi'r llyfr hwyr/ llyfr gadael yr ysgol pan yn briodol.

Mynychu'r ganolfan hamdden adeg gwersi yn unig.

Dilyn y cyfarwyddiadau tân a threfniadaeth y bysiau.

Dim ysmygu.

Dim gemwaith oni bai am un pâr o glustdlysau

- ⇒ 'sleepers' neu 'studs'
- ⇒ yn y clustiau yn unig.

Cerdded ar y chwith ar y coridorau a'r grisiau.

Dim ymgasglu ar y llawr uchaf amser egwyl a chinio.

Rhoi ysbwriel yn y bin a chadw'r ysgol yn lân.

Dim gwm cnoi ar y safle.

Cod Gwisg yr Ysgol:
Pawb:

Crys chwys Penweddig
Crys polo Penweddig
Esgidiau du plaen
Dim lliw na phatrymau gwallt annaturiol

Bechgyn:

Trwser du
Sanau du/gwyn

Merched:

Sgert/trwser du
Sanau du/gwyn neu 'deits' du
Dim colur
Dim farnais ewinedd lliw